**Adroddiad materion gwefan a'r Rhyngrwyd Clwb Mynydda Cymru – CCB Tachwedd 2025**

Ymddiheuriadau am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod blynyddol eleni. Amgylchiadau yn golygu na fedraf fod yn bresennol. Os oes gan unrhyw aelod gwestiwn, yna mae croeso i chwi gysylltu â mi (cyfeiriad ar waelod yr adroddiad hwn.

Cyhoeddir y rhaglen gweithgareddau a hanesion am bob gweithgaredd, ynghyd â Newyddion, ar ein gwefan. Cofiwch dagio @Clwb Mynydda Cymru pan yn negesu ar y gwefannau cymdeithasol. Cofiwch hefyd ddilyn ein cyfrif Gweplyfr/*Facebook* a hoffi a/neu rannu'r hanesion ag eraill. Mae hyn yn rhoi hysbysrwydd rhad am weithgareddau'r clwb.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion bron i 60 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan – ynghyd â'r lluniau cyferbyniol ar *Flickr*. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/*Facebook* cysylltiedig yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf, am pa reswm bynnag!

Mae'r wefan yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi *iOS* ac *Android* yn ogystal a pob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau *iOS* ac *Android*, ar gael drwy ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y wefan [*http://www.clwbmynyddacymru.com/Cysylltu.html*] ac yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan. Dim ond drwy ddilyn y cyfarwyddiadau hyn y gellir gosod yr 'ap', ni ellir cael hwn drwy adnoddau fel *Playstore* ayyb.

Diolch i bawb wnaeth ddanfon adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych. Cofiwch fod tudalen Newyddion ar y wefan hefyd ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau i'r cyfeiriad ebost isod. Adroddwyd am nifer o faterion yno yn ystod y flwyddyn.

Ers Tachwedd 2024, defnyddiwyd y wefan bron i 4 mil o weithiau (266 o ddefnyddwyr rheolaidd o'r DG, 1 o Sbaen, 1 o Wlad Groeg ac 1 o Nepal). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn.

*Y Gweplyfr / Facebook*
Yn ystod y flwyddyn cafwyd dros 170,000 o ymweliadau â'r dudalen. Y diwrnod prysuraf oedd 9 Mehefin, gyda dros 4,000 o ymweliadau!




*Flickr*
Bellach, mae 14,289 o luniau a dynnwyd ar ein teithiau ers 2005, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan *Flickr*. Pob taith gyda'i albwm ei hunan. Gall aelodau lawrlwytho unrhyw un o rhain ar gyfer defnydd personol. Hyd yma cafwyd 929,382 o ymweliadau â'n safle.

Diolch hefyd i'r rhai sy'n gofalu am gyhoeddi gwybodaeth ar X ac *Instagram*.

Mae'r wefan yn gofnod allweddol o weithgareddau'r clwb dros y blynyddoedd. Daliwch ati i gefnogi ein gwefan a'r tudalennau gwefannau cymdeithasol. Mae'n bwysig lledaenu'r wybodaeth am weithgareddau'r clwb yn y dulliau hyn, gan mai dyma'r unig ffordd y daw cymaint ag sy'n bosib o bobl i wybod am yr hyn sy'n cael ei ddarparu ac yn ffordd da i ddenu aelodau newydd.

Os oes ganddoch unrhyw sylw neu gwestiwn parthed gweithgareddau cysylltiedig â'r wefan yna cysylltwch â mi drwy ebost (cyfeiriad isod).

Iolo ap Gwynn 1/11/2025. Cyfeiriad Ebost: iolo.apgwynn@gmx.com. Ysgrifennydd y Wefan